LGBC5M/2001

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 10.30 am DDYDD MERCHER 9fed MAI 2001 YN NHY CARADOG, 1-6 ST.ANDREWS PLACE, CAERDYDD CF10 3BE

Yn bresennol:

Comisiwn	**Ysgrifenyddiaeth**
Yr Athro E Sunderland (Cadeirydd)	Mr E Lewis (Ysgrifennydd)
Mrs S Smith (Aelod)	Mr S Halsall
	Mr D Carr

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Dirprwy Gadeirydd, Mr E F L FitzHugh.

1. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 20fed Ebrill 2001.

1.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf yn amodol ar ddiwygio paragraff 4.3 i ddarllen 'cytunwyd y dylid paratoi fframwaith adroddiad…'.

2. Materion yn codi.

2.1 Nododd yr Ysgrifennydd fod Adran LGM2 wedi'i gynghori nad oedd unrhyw gyfyngiadau mewn grym yn Llangollen o ran clwy'r traed a'r genau ac y gallai'r Comisiwn bellach gynnal ymweliad safle o'r ardal gyda'r Arolwg Ordnans.

2.2 Nododd yr Ysgrifennydd nad oedd trosglwyddiad Mr Halsall o Dy'r Cwmnïau i'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i wneud yn derfynol eto.

2.3 Nododd yr Ysgrifennydd bod Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru (WEFO) wedi'i hysbysu fod posibilrwydd y byddai Llangollen yn colli'i statws Amcan 1 pe câi ei drosglwyddo o Sir Ddinbych i Wrecsam. Fodd bynnag, dywedwyd hefyd mai mater i'r Cynulliad Cenedlaethol oedd hyn yn y pen draw. Dywedodd Mr Lewis ei fod wedi ysgrifennu at Brif Weithredwr WEFO i geisio cael eglurhad ar hyn.

2.4 Nododd Mr Halsall y gwnaed ymholiadau i statws swyddfeydd Cofrestrwyr yng Nghymru. Penderfynwyd er bod swyddfeydd Cofrestrwyr yn cyflawni swyddogaeth awdurdod lleol eu bod yn gwneud hynny ar ran yr Uwch Arolygydd Cofrestru ac nid ar ran yr awdurdodau lleol. Felly nid effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol gan newidiadau i ardaloedd llywodraeth leol.

2.5 Nododd yr Ysgrifennydd y cadarnhawyd na ddeuai arian ar gyfer yr Eisteddfod Ryngwladol yn Llangollen gan y Cynulliad Cenedlaethol. Deuai'r rhan fwyaf o'r

arian gan noddwyr, yr awdurdodau lleol a chyrff eraill. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn cael copi o'r cyfrifon blynyddol gan Ymddiriedolaeth yr Eisteddfod er mwyn penderfynu ar lefel yr arian gan yr awdurdodau lleol.

2.6 Nododd yr Ysgrifennydd ei fod wedi ysgrifennu at Gynghorau Wrecsam a Sir Ddinbych yn gofyn am fanylion costau cychwynnol trosglwyddo Llangollen i Wrecsam. Arhosir atebion o hyd.

2.7 Nododd Mr Halsall y cyflwynwyd fframwaith adroddiad y Cynigion Terfynol ar gyfer arolwg ffin Llandudoch i ymgynghorwyr cyfreithiol y Comisiwn. Derbyniwyd eu hymateb yn ddiweddar.

2.8 Nododd Mr Halsall yr anfonwyd llythyrau at yr awdurdodau lleol perthnasol ynghylch y ceisiadau am arolygon ffin yn Llanfairfechan, Llanefydd a Foryd Harbour a'u bod yn aros am atebion. Canfuwyd bod y Comisiwn wedi ysgrifennu at Gynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg 2 flynedd yn ôl ynghylch anomaledd y ffin yn Grangetown ac y cafwyd ymateb cadarnhaol gan Gyngor Bro Morgannwg. Yng ngoleuni'r ffaith mai dim ond un adliniad posibl oedd o'r ffin rhwng y ddau awdurdod yn Grangetown, cododd y cwestiwn a fyddai'n well cychwyn yr arolwg drwy wneud y cynnig yn hytrach na gofyn am sylwadau cychwynnol. **Cytunwyd** y dylai'r arolwg o'r ffin rhwng Caerdydd a Bro Morgannwg yn Grangetown gychwyn gyda chynnig ar gyfer adlinio'r ffin a gofyn am sylwadau ar y cynnig.

2.9 Nodwyd bod Ysgrifennydd dyddiadur Edwina Hart AC wedi cysylltu â'r Comisiwn ar ôl ystyried y dyddiadau a gynigiwyd gan y Comisiwn gan ymateb y byddai Ms Hart ar gael i gwrdd â'r Comisiwn ar 5ed, 17eg a 18fed Medi 2001 ac mai'r 18fed Medi fyddai orau ganddi.

2.10 Cadarnhawyd y cynhelir y cyfarfod â Gweinidog dros Lywodraeth Leol De Cymru Newydd ar 17eg Gorffennaf 2001 am 10.30am. **Cytunwyd** y dylid cael rhodd symbolaidd i'w gyflwyno i'r Gweinidog.

3. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Llangollen – diweddariad llafar.

3.1 Nododd Mr Halsall ei fod wedi cysylltu â Chyngor Sir Dinbych a holodd a fyddent yn gallu cwblhau eu hastudiaeth o'r Adroddiad IPF erbyn canol mis Mai. Ymatebodd y Cyngor na fyddent yn gallu cwblhau eu hastudiaeth tan ddiwedd mis Mai.

3.2 **Cytunwyd** i ohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

4. Arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol Casnewydd a Thor-faen yn ardal Cymunedau Llantarnam, Malpas a Chaerllion – crynodeb o'r cynrychioliadau.

4.1 Nododd Mr Halsall y derbyniwyd llythyr gan Gyngor Cymuned Ponthir yn gofyn am fanylion yr arolwg. Anfonwyd ymateb i'r Cyngor yn rhoi manylion o'r arolwg ac yn gofyn am unrhyw sylwadau a allai fod ganddynt erbyn 1 Mehefin 2001. **Cytunwyd** y

byddai'r Comisiwn yn gohirio llunio eu cynigion drafft tan ar ôl 1 Mehefin 2001 er mwyn caniatáu i'r Cyngor gael amser i ymateb.

4.2 Ystyriodd y Comisiwn y cynrychioliadau a dderbyniwyd gan gynnwys sawl cynnig ar gyfer adlinio'r ffin. Cynigiodd Mr Halsall yn ogystal ag adlinio ffin yr awdurdod unedol y gellid cynnig newid dilynol i ffin y gymuned rhwng Malpas a Chaerllion. **Cytunwyd** y dylid amlinellu unrhyw newidiadau dilynol i ffiniau cymunedau yn adroddiad y Cynigion Drafft ac y dylid gwahodd sylwadau arnynt.

5. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn ardal Clunderwen.

i) Llythyr gan Gyngor Cymuned Cilymaenllwyd

5.1 Nododd Mr Halsall yr anfonwyd ymateb at Gyngor Cymuned Cilymaenllwyd a'u bod yn aros am ymateb ganddynt.

ii) Cais am estyniad gan Gyngor Sir Caerfyrddin

5.2 Nododd yr Ysgrifennydd yr anfonwyd llythyr at Gyngor Sir Caerfyrddin yn cytuno i'w cais am estyniad i 1 Mehefin 2001.

6. Arolwg o Gydnabyddiaeth a Threuliau Cadeiryddion ac Aelodau Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPBs) a Chyrff GIG – Ymateb Drafft.

6.1 Ystyriwyd y llythyr drafft mewn ymateb i gais y Cynulliad Cenedlaethol am farn ASPBs o'r papur arolwg gan y Comisiwn. **Cytunwyd** i anfon yr ymateb i'r Cynulliad Cenedlaethol.

7. Cyhoeddi Cofnodion Cyfarfodydd y Comisiwn.

7.1 **Cytunwyd** o ystyried absenoldeb y Dirprwy Gadeirydd, y dylid gohirio'r eitem hon tan cyfarfod nesaf y Comisiwn.

8. Comisiwn Ffiniau i Gymru – Memorandwm Drafft o'r Cytundeb rhwng y Swyddfa Gartref, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Comisiwn Ffiniau i Gymru.

8.1 Nododd y Comisiwn y Memorandwm Drafft.

9. Unrhyw Fater Arall

9.1 Cyflwynodd yr Ysgrifennydd lythyr a dderbyniwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi arweiniad ar ymddygiad i ASPBs yn ystod yr Etholiad Cyffredinol. Nododd y Comisiwn gynnwys y llythyr.

9.2 Nododd Mrs Smith ei bod wedi'i phenodi fel Cadeirydd Pwyllgor Safonau Sir Benfro. Nododd y Comisiwn y penodiad hwn.

9.3 Dywedodd y Cadeirydd y byddai ar ei wyliau o 17eg i 24ain Mai 2001.